**LC531**

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

**Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) (Diwygio) 2002, 2002 Rhif. 2171 (W218)**

Mae’r rhain yn llacio Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2002 a Rheoliadau Cofrestru Gofal Cymdeithasol a Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2002 dros dro. Gallai pobl sy’n dymuno darparu neu weithio mewn cynlluniau chwarae haf yn y cyfnod rhwng 12 hanner dydd ar 22 Gorffennaf 2002 a 13 Medi 2002, yn amodol ar rai gofynion penodol, wneud hynny er gwaethaf y ffaith nad oes ganddynt dystysgrif cofnod troseddol fanwl ar gael.

**Rheol Sefydlog 11.5**

Nid oes unrhyw bwyntiau wedi’u nodi o dan Reol Sefydlog 11.5.

**Sylwadau**

1. Mae’r diffiniad o “gynllun chwarae haf” yn ddarpariaeth ar ei phen ei hun yn rheoliad 2(1) ond mae pob darpariaeth arall ar ffurf gwelliannau testunol i’r prif reoliadau. Byddai arfer drafftio arferol yn ymagwedd gyson i’w mabwysiadu. Bydd person sy’n darllen cyfres o reoliadau wedi eu newid yn destunol yn disgwyl gweld diffiniadau wedi eu cynnwys fel gwelliannau testunol o fewn y rheoliadau hynny. O gofio amgylchiadau penodol yr achos hwn, fodd bynnag, lle mae’r gwelliannau yn weithredol am lai na dau fis, byddai wedi bod yn well pe bai’r holl ddarpariaethau wedi eu gwneud nid fel gwelliannau testunol ond fel addasiadau ar eu pen eu hunain gan adael testun y prif reoliadau yn gyflawn.

2. Yn y diffiniad o “gynllun chwarae haf” ymddengys fod y geiriau “sy’n cynnwys plant o dan wyth oed” yn ddiangen o gofio mai dim ond i blant o dan 8 oed y mae “gofal dydd” fel y’i diffinnir yn adran 79A(6) yn berthnasol.
3. Dylai’r gair “yn” fod wedi ei osod ar ddechrau pob un o’r paragraffau (B) – (D) o reoliad 4(3)(c)(iii) fel y’i mewnosodwyd yn Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru).
4. Diwygir rheoliad 16(5) o Reoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) i’w wneud “yn ddarostyngedig i baragraff (7)”. Byddai wedi bod yn fwy priodol, fodd bynnag, i ddiwygio paragraff (4)(b) i ddarllen “oni bai bod paragraff (5) neu (7) yn gymwys”.
5. Ym mharagraff 7(d) fel y’i mewnosodwyd yn rheoliad 16 o Reoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) dylai geiriau fel “wedi’i sicrhau” fod wedi eu cynnwys ar y diwedd.
6. Dylai’r troednodyn i’r Rhagymadrodd gyfeirio at adran 120(2) o Ddeddf Safonau Gofal 2000 i ddangos sut y rhoddir y pwerau galluogi i’r Cynulliad. Hynny yw, nid yw’r cyfeiriad at y diffiniad o “the appropriate Minister” yn adran 121(1) yn briodol gan fod y pwerau galluogi a ddefnyddir wrth wneud y rheoliadau presennol wedi eu mewnosod yn Neddf Plant 1989. Am yr un rheswm dylai’r troednodyn gyfeirio at y diffiniad o “prescribed” yn adran 105(1) o Ddeddf 1989 yn hytrach na’r diffiniad yn adran 121(1) o Ddeddf 2000.

Mick Bates AC
**Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau**

15 Hydref 2002